PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 10 IONAWR 2024

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Williams(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ash-Edwards, Carter, Chowdhury, Henshaw, Hinchey, Hunt a/ac Thomson |

49 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim wedi'u derbyn. Nododd y Cadeirydd nad oedd y Cynghorydd Bowen-Thomson wedi mynychu Cyfarfod Pwyllgor nac anfon ymddiheuriadau eto a gofynnodd i nodyn atgoffa o'r angen am ymddiheuriadau gael ei basio ymlaen gan Aelod o'r grŵp Llafur.

50 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorwyr Carter, Henshaw a Joel Williams fuddiannau personol yn eitemau 4 a 5 gan fod aelodau o'u teulu yn cael eu cyflogi gan y Cyngor.

51 : MINUTES

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2023 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

52 : BRÎFF HOLI CAERDYDD/YMGYNGHORIAD AR GYLLIDEB 2024/25

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod hwn yn gyfle i gael y wybodaeth ddiweddaraf am waith modelu cyllideb y Cyngor yng ngoleuni'r Setliad Dros Dro, ynghyd â newyddion am yr ymgynghoriad ar y gyllideb. Atgoffwyd yr Aelodau fod yr Ymgynghoriad ar Gyllideb y Cyngor ar gyfer 2024/25 yn fyw ar hyn o bryd. Tasg y pwyllgor oedd nodi sut yr oedd gwaith modelu cyllideb yn mynd rhagddo ac ystyried y dull eleni o ymgynghori ar y gyllideb. Gallai'r Aelodau gyfrannu at yr ymgynghoriad a bwydo unrhyw bryderon a sylwadau i'r Cabinet i lywio trafodaeth wrth baratoi'r cynigion cyllideb terfynol ar gyfer 2024/25, a fyddai'n cael eu cyflwyno i'r pwyllgor yng nghyfarfod mis Chwefror.

Croesawodd y Cadeirydd y canlynol ar gyfer yr eitem hon:

- Y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad,
- Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau,
- Gareth Newell, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau,
- Dylan Owen, Rheolwr Gweithredol Polisi a Pherfformiad,
- Claire Owens, Prif Swyddog Ymchwil ac Ymgynghori

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol ac ar ôl hynny rhoddodd y Swyddogion gyflwyniad i'r Aelodau.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Nododd yr Aelodau y setliad dros dro gwell na'r disgwyl o 4.1% ar gyfer Caerdydd, sydd, ar ôl modelu, yn cyflwyno bwlch cyllidebol o £30.491m i ni ei gau drwy arbedion. Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod £10m o arbedion eisoes wedi'u canfod heb effeithio ar wasanaethau rheng flaen, ac y bydd yr ymgynghoriad ar y gyllideb, tra'n cydnabod ei fod yn ymwneud â thraean yn unig o gyllid y Cyngor, yn helpu i benderfynu ar y gweddill. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau y bydd yr ymgynghoriad 4 wythnos ar y gyllideb fyw, wedi'i lywio gan brif ganfyddiadau Holi Caerdydd, yn cael ei ddadansoddi, ac y bydd yr adroddiad ar gael i lywio cynigion arbedion cyllidebol terfynol, o fewn pythefnos i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Roedd yr Aelodau o'r farn y dylai'r ffigwr setliad ychwanegol o 1% o'i gymharu â'r 3% y modelwyd y gyllideb arno o'r blaen arwain at ddiogelu rhai arbedion a gynigiwyd yn wreiddiol. Nododd Aelodau'r Pwyllgor y diffyg manylion ynghylch sut y gallai newidiadau i grantiau penodol effeithio ar setliad terfynol Caerdydd, ac nad oedd Aelodau'r Cabinet na'r Swyddogion yn ymwybodol o'r newidiadau i wasanaethau cymdeithasol a grantiau digartrefedd cyn y cyhoeddiad. Er gwaethaf rhywfaint o ansicrwydd o ran grantiau penodol, roedd yr Aelodau'n falch y byddai rhai gwasanaethau, fel y Gwasanaethau Ieuenctid, yn cael eu diogelu. Cynigiodd y Swyddogion gadarnhau dealltwriaeth y Cyngor o'r sefyllfa o ran grantiau cyn y cyhoeddiad.

Dymunai'r Pwyllgor longyfarch y Swyddogion ar ddogfen ymgynghori ragorol a hygyrch ar y gyllideb. Ystyriodd yr Aelodau y cynllun thematig ac roedd y cwestiynau gwirioneddol agored yn dda. Yn ogystal, tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith bod Cymdeithas Ddinesig Caerdydd wedi tynnu sylw at anghysondeb rhwng fersiynau ar-lein a chopi caled yr ymgynghoriad mewn perthynas â Pharciau a chawsant eu sicrhau bod sylwedd y cwestiynau yn aros yr un fath.

Teimlai rhai Aelodau fod yr ymgynghoriad yn cynnwys cynigion dadleuol a allai godi ofn ar drigolion. Rhoddodd y Swyddogion sicrwydd bod yr arolwg yn cydnabod yr angen i fod yn onest â thrigolion, bod yr holl newidiadau posibl i wasanaethau rheng flaen wedi'u cynnwys yn yr arolwg, a byddai'r holl arbedion, pe baent yn cael eu cymryd, yn dod i £4m. Fodd bynnag, nododd yr Aelodau fod yr adran ar y Dreth Gyngor yn gymharol fach, ac nad oes opsiwn i leihau cyllid arena.

Cytunodd yr Aelodau y bu ehangu llwyddiannus o'r ymgynghoriad dros amser, fodd bynnag, hoffai'r Aelodau hefyd hyrwyddo mwy o ymgynghoriadau ward ar faterion fel Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion a buddsoddiad Priffyrdd mewn teithio llesol, yn enwedig gan eu bod yn fuddsoddiadau hirdymor yn y gyllideb gyfalaf. Nododd yr Aelodau y farn bod materion o'r fath yn fwy cyfforddus yn yr ymgynghoriad Holi Caerdydd, a bydd y Swyddogion yn ystyried adolygiad o ran a ellid cynnwys cwestiynau o'r fath. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau o'r farn bod yr amserlen 4 wythnos ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yn dynn iawn i gael mynediad at bob grŵp anodd ei gyrraedd. Dywedodd y Swyddogion eu bod yn targedu cyfradd ymateb uchel ar-lein, y byddant yn adolygu ymatebion yn wythnosol ac y byddant yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i dargedu grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ac yn defnyddio dull pwrpasol yn yr wythnos olaf lle nodir bylchau.

Nododd yr Aelodau safbwynt y Swyddogion fod adborth y cyhoedd yn cael ei werthfawrogi ond nad refferendwm yw'r ymgynghoriad, dymunai'r Aelodau ailadrodd eu barn y dylai'r weinyddiaeth wrando ar adborth y cyhoedd.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad mewn perthynas ag adroddiadau yn y wasg y gallai arbedion gynnwys gostyngiad yn nifer y biniau sbwriel yng nghanol y ddinas. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai'r ffocws ar gadw glendid yn yr ardaloedd hynny sydd â nifer uchel o ymwelwyr, yn hytrach nag ardaloedd preswyl tawelach. Nododd yr Aelodau fod adnoddau i lanhau strydoedd wedi cynyddu dros y blynyddoedd blaenorol, mae'r rhain yn amseroedd heriol, fodd bynnag, mae ymgyrch gref i gynyddu targedau ailgylchu.

Roedd yr Aelodau'n ymwybodol o'r heriau cyllidebol a oedd yn cael eu hwynebu ar yr adeg hon gan ysgolion yn eu cymunedau ac roeddent yn ceisio sicrwydd y byddai'r setliad o 4.1% yn cael ei drosglwyddo'n llwyr i gyllidebau ysgolion. Pwysleisiodd yr Aelodau y dylai'r Cyngor fod yn ymwybodol o oblygiadau arbedion refeniw byrdymor ar gostau cyfalaf hirdymor, yn enwedig ar faterion cynnal a chadw adeiladau. Dywedodd y Swyddogion eu bod yn ystyried addysg yn flaenoriaeth a bydd y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i gefnogi ysgolion, ceisiodd yr Aelodau sicrwydd pellach na fydd disgwyl i ysgolion gynnig arbedion effeithlonrwydd o fewn y cyllidebau presennol.

Nododd yr Aelodau y sgyrsiau cynhyrchiol gyda Llywodraeth Cymru gyda'r nod o sicrhau arwydd cynharach o'r setliad dros dro yn y blynyddoedd i ddod ac annog bod grantiau mwy penodol ar gael fwyfwy drwy'r gronfa Gyffredinol.

Nododd yr Aelodau fod y Cabinet yn parhau i lobïo llywodraeth y DU ar fater pensiynau athrawon a chawson nhw sicrwydd y byddai ymgysylltu parhaus rhwng undebau llafur a staff ar faterion cynilion cyflogaeth.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau ac argymhellion y Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 53 : STRATEGAETH CYFRANOGIAD 2023/27

Atgoffwyd yr Aelodau, yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor, fod ganddynt gyfrifoldeb am graffu unrhyw bolisi'r Cyngor a ddatblygir i fynd i'r afael ag ymgysylltu ac ymgynghori â dinasyddion. Mae angen i gynghorau ledled Cymru ddatblygu a chyhoeddi strategaeth ar annog cyfranogiad yn y broses o wneud penderfyniadau i gydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2021. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn ei gwneud yn ofynnol sicrhau bod y Strategaeth Cyfranogiad yn mynd i'r afael â ffyrdd o hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith pobl leol o waith aelodau a sut i ddod yn aelod o'r Cyngor. Felly, roedd cyflawni'r strategaeth hon wedi bod yn gydweithrediad rhwng swyddogaeth Polisi a Pherfformiad y Cyngor a'i swyddogaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Ychwanegodd y Cadeirydd fod y broses hon bellach ar gam y Cabinet gan ystyried y Strategaeth Cyfranogiad derfynol yr wythnos nesaf, ac mae gan yr Aelodau gyfle i graffu cyn penderfynu. Roedd Swyddogion o'r swyddogaeth Perfformiad ac o'r Gwasanaethau Democrataidd yn bresennol i fynd â'r Pwyllgor trwy ddatblygiadau ers

mis Mawrth 2023 i gyflawni’r Strategaeth hon a byddai cwestiynau'n cael eu cymryd ar bob rhan ar wahân.

Croesawodd y Cadeirydd y canlynol ar gyfer yr eitem hon:

- Y Cynghorydd Julie Sangani, yr Aelod Cabinet dros Iechyd y Cyhoedd a Chydraddoldeb,
- Gary Jones, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd,
- Gareth Newell, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau,
- Dylan Owen, Rheolwr Gweithredol Polisi a Pherfformiad a
- Claire Owens, Prif Swyddog Ymchwil ac Ymgynghori

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol ac ar ôl hynny rhoddodd y Swyddogion gyflwyniad i'r Aelodau.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i’r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Rhan 1

Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd bod cau'r ddolen adborth ar ôl yr ymgynghoriad yn flaenoriaeth i gyfarwyddiadau. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod adborth yn oddefol ar hyn o bryd ac yn amodol ar gapasiti'r tîm, ond wrth symud ymlaen bydd y Gyfarwyddiaeth yn cymryd camau ymarferol, fel defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, datblygu cylchlythyrau chwarterol gyda dolenni i adroddiadau Cabinet a Chraffu, a thargedu cymunedau o ddiddordeb yn fwy uniongyrchol.

Roedd yr Aelodau yn awyddus i ddeall pam ei fod yn anodd cysylltu â rhai dinasyddion. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau, yn achos lleiafrifoedd ethnig, ei fod yn bennaf oherwydd nad ydynt yn ymwybodol o'r wybodaeth sydd ar gael, ond ceisir gwelliannau yn weithredol gyda'r Cyngor yn gofyn i gyflogwyr/partneriaid eraill rannu eu rhwydweithiau. Nododd yr Aelodau y dyhead i chwalu rhwystrau trwy ddatblygu perthynas ddynamig â grwpiau eiriolaeth.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau) yn elfen allweddol o ymgynghori ac y byddai'n ddefnyddiol pe bai gan y Cyngor ddangosydd perfformiad allweddol, gyda tharged, i alluogi monitro gwaith ymgysylltu â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol dros amser. Cytunodd y Swyddogion fod angen rhoi gwaith monitro cynnydd ar y mater hwn ar waith yn y dyfodol.

Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd rheoli ymgynghori ym mhob rhan o’r Cyngor, er mwyn sicrhau bod yr holl ymgysylltu’n werthfawr ac yn arfer da. Dywedodd y Swyddogion fod yr Uwch Dîm Rheoli o'r farn bod yn rhaid cael sicrwydd gan Ganolfan Ymchwil Caerdydd ar gyfer ymgynghori pob cyfarwyddiaeth er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni arfer da.

Gan gyfeirio at adrodd cymharol, cytunodd yr Aelodau fod data ansoddol yn hynod ddefnyddiol, a gwnaethon nhw groesawu'r ffigurau ymateb meintiol ffafriol a oedd yn gymharol ag awdurdodau eraill.  Fodd bynnag, roedd yr Aelodau o'r farn y dylai'r Swyddogion fod yn adrodd cyfrannau yn hytrach na phoblogaeth, er mwyn sicrhau cymhariaeth gyfartal.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau, fel rhan o'r Strategaeth Cyfranogiad, y bydd y Cyngor yn ceisio ymgysylltu ag amrywiaeth ehangach o sefydliadau cymunedol. Roedd yr Aelodau'n teimlo'n gryf y dylid dosbarthu fersiynau copi caled o ymgynghoriadau'r Cyngor ym mhob ward. Yn benodol, lle na cheir un o adeiladau'r Cyngor (hybiau/llyfrgelloedd) mewn wardiau, yna mewn lleoliadau cymunedol nad ydynt yn eiddo i'r Cyngor.

Roedd yr Aelodau wrth eu bodd gyda'r gydnabyddiaeth y byddai grwpiau cymunedol llawr gwlad yn datgloi gwelliant yn nifer yr ymatebion ac o'r farn y gallent gynorthwyo i nodi lleoliadau addas.

Rhan 2

Nododd yr Aelodau y farn, wrth geisio gweithredu'r Strategaeth Cyfranogiad yn gywir, fod yn rhaid i'r Cyngor fod yn ystyriol o ymgysylltu â'r holl grwpiau gwleidyddol ac ymgeiswyr annibynnol yn gyfartal. Teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig bod yn onest a sicrhau dealltwriaeth lawn bod yn rhaid i ymgeiswyr etholiad posibl naill ai fod yn aelod o blaid wleidyddol neu sefyll fel aelod annibynnol. Yn bwysig, dylai'r strategaeth bwysleisio bod yn rhaid i ymgeiswyr fod yn barod i weithio'n galed ar ran y gymuned.

Teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig nad yw'r Porthol dim ond yn dyblygu gwybodaeth sydd ar gael mewn mannau eraill (e.e. gwefan y Cyngor). Rhybuddiodd yr Aelodau y gallai cefnogi'r Porthol arwain at ddefnyddio llawer o adnoddau, ar adeg o bwysau ariannol ac adnoddau. Croesawodd yr Aelodau y nod o wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch trwy ddileu jargon, symleiddio a byrhau adroddiadau a gwnaethon nhw annog y Swyddogion i barhau i ymchwilio i arfer gorau, gweithio gyda phartneriaid a chymdeithasau, a chael cyngor gan y Ganolfan Lywodraethu a Chraffu.

Cydnabu'r Aelodau fod templedi adroddiad safonol, gweithdrefnau, a rhywfaint o fiwrocratiaeth yn angenrheidiol ar gyfer gwneud penderfyniadau gwybodus, ond roeddent o'r farn y byddai'n ddefnyddiol adolygu graddfa a defnyddioldeb papurau'r Pwyllgor Craffu a phapurau'r Cyngor Llawn. Awgrymodd yr Aelodau hefyd y dylai papurau fod ar gael nid yn unig i aelodau'r pwyllgor ond i bob cymuned a defnyddio llai o jargon i wella ymgysylltu â'r cyhoedd.

Teimlai'r Aelodau y gellid ehangu'r ystod oedran a dargedir gyda gwybodaeth am fynediad at swyddi cyhoeddus i gynnwys pobl dros 65 oed, o ystyried y ffaith bod yr oedran gweithio'n cynyddu.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau ac argymhellion y Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

54 : ADOLYGIAD O’R GWASANAETHAU TRAFNIDIAETH CANOLOG - DIWEDDARIAD

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys cyfrifoldeb am graffu ar y Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog, sy'n wasanaeth cymorth allweddol i holl wasanaethau'r Cyngor sy'n dibynnu ar gerbydau fflyd. O'r herwydd, mae angen i'r Cyngor ddarparu'r gwasanaeth hwn yn effeithiol. Dywedodd y Cadeirydd ymhellach ei fod felly wedi gofyn am frîff fel bod y Pwyllgor yn deall blaenoriaethau strategol allweddol y gwasanaeth dros y deuddeg mis nesaf. Byddai hyn hefyd yn galluogi trafodaeth ar rai o'r cyfleoedd a'r heriau a oedd yn wynebu’r Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog, gan gynnwys diweddariad ar y cynnydd a oedd yn cael ei wneud ar eu Rhaglen Gwella. Efallai y bydd y Pwyllgor hefyd yn nodi cyfleoedd ar gyfer monitro’r gwasanaeth ac ymgysylltu â nhw’n barhaus.

Croesawodd y Cadeirydd y canlynol ar gyfer yr eitem hon:

- Y Cynghorydd Caro Wild, yr Aelod Cabinet dros y Newid yn yr Hinsawdd,
- Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau,
- Dean Thomas, Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol ac ar ôl hynny rhoddodd y Swyddogion gyflwyniad i'r Aelodau.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i’r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Mynegodd yr Aelodau yr angen i gael mynediad i'r adroddiad archwilio mewnol a'r rhaglen wella ar gyfer y Gwasanaethau Trafnidiaeth Ganolog.

Pwysleisiodd yr Aelodau y dylai papurau craffu gynnwys y dogfennau hyn ar gyfer asesiad trylwyr o gynnydd. Cytunodd y Swyddogion i rannu'r cynllun gwella, a chytunwyd ei fod yn hanfodol ar gyfer craffu.

Gan gyfeirio at ddefnyddio cerbydau, roedd yr Aelodau'n dymuno cael mynediad i'r adroddiad archwilio mewnol ar y Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog, yn enwedig o ran defnyddio cerbydau. Mynegodd yr Aelodau bwysigrwydd archwilio'r defnydd llawn o gerbydau'r Cyngor er mwyn gwella effeithlonrwydd.

Roedd yr Aelodau o'r farn y byddai ymweliad â depo’r Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog yn fuddiol iawn a gofynnon nhw am sesiwn graffu fanwl yn ymwneud ag agweddau fel perchnogaeth, data cerbydau, systemau olrhain TG, ac enghreifftiau o ddefnydd effeithiol.

Gwnaeth yr Aelodau gofio dyheadau blaenorol i’r Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog gynhyrchu incwm trwy gynnig gwasanaethau i sefydliadau allanol a gofynnon nhw beth oedd yn cael ei wneud i ddatblygu hyn. Dywedodd y Swyddogion

fod gwasanaethau'n cael eu darparu i'r cyhoedd fel MOTs. Cydnabu'r Aelodau gyfleuster o'r radd flaenaf Coleridge Road a chroesawon nhw'r cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau marchnata i awdurdodau eraill, cyrff gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid.

Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd cael y strwythur staff cywir ar waith i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer y Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog yn y dyfodol. Rhoddodd y Swyddogion wybod am yr adolygiad parhaus o'r strwythur staff i sefydlogi'r tîm rheoli, diwylliant, a blaenoriaethu prentisiaethau ychwanegol.

Dywedodd yr Aelodau, pan fo Archwiliad Mewnol anfoddhaol yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y dylid hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol a hefyd y dylid cynnwys yr adroddiad ar yr archwiliad mewnol yn awtomatig mewn papurau, wedi'i farcio'n gyfrinachol yn ôl yr angen. Byddai hyn yn gwella tryloywder, goruchwyliaeth ac effeithiolrwydd yn y broses graffu.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau ac argymhellion y Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

55 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi'u derbyn.

56 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

28 Chwefror 2024, 10.00am (Craffu ar y Gyllideb)

Daeth y cyfarfod i ben am 7.20 pm